# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Mercher, 15 Rhagfyr 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Diweddariad ar lafar parthed cefnogaeth y Gwasanaeth Ysgolion dros y cyfnod COVID 19**

4. **Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (Tudalennau 3 - 4)**

5. **Prosiect e-sgol yng Ngheredigion a Chymru (Tudalennau 5 - 18)**

6. **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (Tudalennau 19 - 32)**

7. **Adborth ar ffrwd gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu (Tudalennau 33 - 34)**

8. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 35 - 40)**

9. **Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 41 - 44)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **15 Rhagfyr 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Rhithiol** |
| **TEITL:** | **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Diweddariad** |

**CEFNDIR:**

Mae'n statudol bod pob Awdurdod Lleol yn paratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer y ddegawd 2022-2032.

Ar 15fed Mehefin 2021, cafodd Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion (drafft) ganiatâd y Cabinet i fynd i ymgynghori am gyfnod o wyth wythnos. Er mwyn osgoi ymgynghori dros wyliau'r Haf, fe gychwynnodd yr ymgynghoriad ar 20fed Medi gan gau ar 12fed Tachwedd 2021.

Er mwyn ymateb yn llawn a manwl i'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad mae angen i'r ddogfen 'Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' gan ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd copi drafft o'r ddogfen hon yn Rhagfyr 2020 ar gyfer cyfnod ymgynghori. Serch hyn, nid yw'r copi terfynol wedi'i gyhoeddi eto, er y disgwylir hynny cyn diwedd blwyddyn galendr 2021. Bydd cynnwys y ddogfen hon yn allweddol wrth gynnig ymateb i ymgynghoriad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yng Ngheredigion.

Bydd amserlen wreiddiol cyflwyno sylwadau'r ymgynghoriad a'r ymateb iddynt yn cael ei haddasu felly o ganlyniad i'r uchod. Bellach, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn derbyn yr ymateb i'r ymgynghoriad ar 17eg Chwefror, gyda'r Cabinet yn derbyn yr adroddiad ar 22ain Chwefror 2022.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam**<br>***Crynodeb:*** | Nac oes |

**Hirdymor:**
**Integreiddio:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**

**ARGYMHELLIAD**

Er gwybodaeth

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Er gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Meinir Ebbsworth |
| **Swydd:** | Prif Swyddog Addysg |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 15 Rhagfyr 2021 |
| **Acronymau:** | |

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **15 Rhagfyr 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Rhithiol** |
| **TEITL:** | **Prosiect e-sgol yng Ngheredigion a Chymru** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Er gwybodaeth** |

**CEFNDIR:**

Mae e-sgol yn fenter dysgu cyfunol i gynnig cyfleoedd dysgu ac addysgu ar-lein yn defnyddio dulliau dysgu uniongyrchol a rhyngweithiol mewn amser real. Mae e-sgol yn darparu cymorth i ysgolion gyda'r setiau sgiliau a'r dulliau addysgegol sydd eu hangen i sicrhau'r profiadau gorau posibl i'r dysgwr.

Yn y lle cyntaf, canolbwyntiodd y fenter ar alluogi ysgolion gwledig i gynnal yr opsiynau o bynciau lle'r oedd nifer anghynaliadwy o ddysgwyr mewn dysgu ôl-14 ac ôl-16. Yn wreiddiol, bu ysgolion yn gweithio ar draws clwstwr o chwe ysgol ar y mwyaf, oedd o fewn pellter teithio i'w gilydd. Darparwyd y wers drwy ddull dysgu cyfunol, tra anogwyd dysgwyr i deithio i ysgol yr athro bob hanner tymor. Fel arall, mae'r gwersi'n defnyddio Microsoft Teams, trwy Hwb, i sicrhau nad oes unrhyw gostau diangen i ysgol(ion).

Mae'r prosiect wedi ehangu tipyn o ganlyniad i COVID, gyda mwy o ysgolion ledlen Cymru yn derbyn cefnogaeth erbyn hyn. Gweler ycyflwyniad atodol am fwy o fanylion ar gynnydd y prosiect dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cyflwyniad e-sgol - Craffu 15-12-21.ppt›

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:** | Nac oes |

**Cynnwys:**
**Atal:**

**ARGYMHELLIAD**

Er gwybodaeth

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Er gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Gwion Dafydd |
| **Swydd:** | Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 15 Rhagfyr 2021 |
| **Acronymau:** | |

## Dafydd Charles
Cydlynydd Strategol e-sgol
e-sgol Strategic Coordinator

## Gwion Dafydd
Rheolwr Cyffredinol e-sgol
e-sgol General Manager

## Gareth Lanagan
Ymgynghorydd e-sgol
e-sgol Consultant




Freely available online collaboration tools allow for the creation of a digital classroom where pupils and teachers can communicate with one another effortlessly. Pupil work can now be assigned, completed, given 'live' feedback, submitted and marked all at the touch of a button.

## The Teacher Leg

Relationships are key to any classroom and the e-Sgoil teacher will make every effort to visit pupils before remote teaching begins. This teacher will then build upon the school visit and seek to further develop relationships through regular in-class conversations and one-to-one interactions. The teacher will be the leader of learning and will ensure that lessons cover all areas of curricular content and are delivered in an engaging and interactive manner.

The role of the in-class facilitator is to provide in-class supervision and offer support as and when required. They will have a role in keeping pupils focussed, on task and will provide regular feedback to the e-Sgoil teacher based on their observations.




## The aims of e-Sgoil are:

broadening and extending a range of subjects in Western Isles secondary schools

To support Gaelic medium education at local and national level

create a network of different subject teachers with the ability to teach online across the country

assisting the Comhairle nan Eilean Siar workforce plan in relation to adult education and New Apprenticeships.

EHANGU CYFLEOEDD DYSGU I BAWB.

EXPANDING LEARNING OPPORTUNITIES FOR ALL.

# Model e-sgol

- 3 cydlynydd ar draws Cymru.
- Ardaloedd gwledig a'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth.
- Gwersi yn digwydd mewn partneriaeth.
- Pynciau ar draws ôl-14 ac ôl-16 yn cael eu cynnig.

# e-sgol Model

- 3 coordinators across Wales.
- Rurality and Welsh language a priority.
- Lessons happen in partnership.
- Subjects across post-14 and post-16 being offered.



EHANGU CYFLEOEDD DYSGU I BAWB.
EXPANDING LEARNING OPPORTUNITIES FOR ALL.

e-sgol

**2018**

- Peilot yng Ngheredigion
- Pilot in Ceredigion

**2019**

- Ysgolion Powys yn ymuno
- Powys schools come on board

**2020**

- 6 Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Cymru
- 6 Welsh medium schools in North Wales

**2021**


- Ehangu yn Genedlaethol
- Expand Nationally

| 2018/19 | |
|---|---|
| Ysgolion | 3 |
| Cyrsiau yn rhedeg | 4 |
| Disgyblion | 43 |


| 2019/20 | |
|---|---|
| Ysgolion | 14 |
| Cyrsiau yn rhedeg | 20 |
| Disgyblion | 121 |

| 2020/21 | |
|---|---|
| Ysgolion | 24 |
| Cyrsiau yn rhedeg | 40 |
| Disgyblion | 282 |


e-sgol



**3 participating schools**
**4 e-sgol courses offered**
**43 pupils**




**14 participating schools**
**20 e-sgol courses offered**
**121 pupils**



**24 participating schools**
**40 e-sgol courses offered**
**282 pupils**

# Y Tîm / The Team



# Y prosiect

- Dysgu cyfunol – sesiynau wyneb-yn-wyneb bob hanner tymor.
- Clwstwr o ysgolion o fewn pellter teithio lle'n bosib.
- Pob ysgol o fewn y clwstwr yn cynnig pwnc – dim trosglwyddo arian.
- Rhannu arbenigedd a gwella'r gwendidau o fewn yr ysgolion.
- Targedu pynciau gyda rhifau anhyfyw.
- Staff e-sgol yn cydlynu'r ddarpariaeth.

# The project

- Blended learning –face-to-face sessions every half term.
- Cluster of schools within travelling distance where possible.
- Each school within the cluster offer a subject – no transfer of finances.
- Share expertise and improve weaknesses within the schools.
- Target subjects with inviable numbers.
- Coordination of provision by e-sgol staff.

# Hyfforddiant

- Hyfforddiant pob haf gyda'r uwch dîm, staff dysgu a TGCh.
- Disgyblion a staff dysgu yn cael hyfforddiant anwytho ym mis Medi.
- Hyfforddiant parhaus trwy'r flwyddyn – holiaduron yn nodi'r angen.

# Training

- SMT, Teaching and IT staff training arranged every summer.
- Pupil and further staff induction in first week in September.
- Continuous training throughout year – questionnaires inform need.

# Pynciau e-sgol / e-sgol Subjects

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mandarin<br>(TGAU / GCSE) | Cerddoriaeth<br>*Music* | Cymraeg<br>*Welsh* | Cymraeg Ail Iaith<br>*Welsh 2nd Language* | Maths Pellach<br>*Further Maths* | Ffrangeg<br>*French* | Drama |
| Electroneg<br>*Electronics* | Addysg Grefyddol<br>*Religious Education* | Cyfrifiadureg<br>*Computer Science* | Daearyddiaeth<br>*Geography* | Almaeneg<br>*German* | Iechyd a Gofal<br>*Health and Social Care* | TGCh<br>*ICT* |
| Technoleg Cerdd<br>*Music Technology* | Astudiaethau Cyfryngau<br>*Media Studies* | Seicoleg<br>*Psychology* | Gwyddor Feddygol<br>*Medical Science* | Gwyddor Forol<br>*Marine Science* | Sbaeneg<br>*Spanish* | Cam wrth Gam<br>(Mudiad Meithrin) |
| Sociology<br>*Cymdeithaseg* | Troseddeg<br>*Criminology* | Y Gyfraith<br>*Law* | Busnes<br>*Business* | Gwleidyddiaeth<br>*Politics* | | |

Bydd Carlam Cymru yn dychwelyd ar gyfer 2021/22 gyda sesiynau byw ar gael i fyfyrwyr TGAU yn ystod yr Hydref, a myfyrwyr TGAU, UG a Safon Uwch yn y Gwanwyn

Bydd y digwyddiadau byw yn ystod tymor yr Hydref yn rhedeg ar ôl ysgol am bedair wythnos, gan ddechrau ar 15 Tachwedd, a byddant yn canolbwyntio ar y pynciau craidd

Bydd myfyrwyr yn gallu cael mynediad i'r digwyddiadau byw hyn gartref, a byddant hefyd yn cael eu recordio a'u rhoi ar wefan e-sgol

CARLAM CYMRU

e-sgol

"Sesiynau gwych, roedd tiwtoriaid Carlam yn atgyfnerthu'r agweddau allweddol yr oeddwn eisoes wedi'u cwblhau yn fy ysgol"

Adborth myfyrwyr o sesiynau byw blaenorol Carlam Cymru

Ewch i wefan e-sgol am fwy o wybodaeth www.e-sgol.cymru

e-sgol

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Mynychodd bron i 3,000 ym mis Mawrth 2021 – adborth cadarnhaol.

Nearly 3,000 attended in March 2021 – positive feedback.

Carlam Cymru will return for 2021/22 with live sessions being made available to GCSE students during the Autumn, and GCSE, AS and A Level students in the Spring

The live events during the Autumn term will run after school for four weeks, beginning 15 November, and will focus on the core subjects

Students will be able to access these live events at home and they will also be recorded and made available through the e-sgol website

CARLAM CYMRU

e-sgol

"Great sessions, the Carlam tutors reinforced key aspects that I had already completed in my school"

Student feedback from previous Carlam Cymru live sessions

Visit the e-sgol website for more information www.e-sgol.cymru

e-sgol

Llywodraeth Cymru Welsh Government

e-sgol

# Ar y gweill

- **Gogledd**: Cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y sector Gynradd / Help â darpariaeth UCD / Hwyluso'r cydweithio ar y Cwricwlwm i Gymru / Hwyluso Trochi.
- **Canolbarth**: peilota cydweithio rhwng ysgolion cynradd/uwchradd.
- **De**: Cam wrth Gam / Gweithio gyda Cholegau Addysg Bellach.
- Helpu ALlau i gwrdd â'u targedau CSyGA.
- Cyfrannu i gwrs TAR Prifysgol Bangor.

# In the pipeline

- **North**: Strengthen provision of Welsh in the Primary Sector / Facilitate work in PRUs / Facilitate the collaboration on the Curriculum for Wales / Facilitate immersion sessions.
- **Mid**: piloting collaboration between primary/secondary schools.
- **South**: Cam wrth Gam / Further Education Colleges
- Assist LEAs to meet their WESP targets.
- Contribute to PGCE at Bangor University.

e-sgol

# Amcanion hir-dymor e-sgol

- Pob ysgol Gymraeg (yn y man cyntaf) yng Nghymru yn cynnig o leiaf un pwnc yn rhithiol i eraill.
- Cyrsiau Carlam yn rhedeg yn flynyddol i gynnig cymorth pynciol i ddisgyblion Bl11-13 Cymru.
- Cynorthwyo UCDau (PRUs) Cymru i ddarparu amrywiaeth o gyrsiau all-graidd i'w disgyblion.
- Cynorthwyo "Global Futures" i ddarparu cyrsiau ieithoedd modern i ddisgyblion.
- Cynorthwyo "Cam wrth Gam" i ddarparu cyrsiau gofal plant yn y Gymraeg.
- Edrych i sefydlu darpariaeth gefnogol Gymraeg i rieni di-Gymraeg Cymru.
- Cyd-weithio â cholegau i gyflwyno modiwl dysgu cyfunol yn eu cyrsiau TAR.

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **DYDDIAD:** | 15fed Rhagfyr 2021 |
| **LLEOLIAD:** | Ar-lein |
| **TEITL:** | Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (22.10.21) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Er gwybodaeth |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Ddim yn berthnasol |

**CEFNDIR:**

Un o'r dyletswyddau a roddwyd i Awdurdodau Lleol o fewn Llywodraeth Cymru – Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y **Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**.

Annex B Welsh.docx

Er mwyn cwrdd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- *Gefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid y Sir fel corff cynrychioliadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol.*
- *Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac i gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc mwy ymylol.*
- *Er mwyn i Fforymau / Cynghorau Ieuenctid y Sir weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn.*
- *Dylent gael eu hysbysu a'u cysylltu â'u strwythurau democrataidd lleol.*
- *Bydd angen iddynt hefyd gael eu cysylltu'n effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol fel Young Wales, Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl ddynol i gael barn ac i'r safbwyntiau hyn fod o bwys. Mae'n dweud y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n eu cynnwys, ac ni ddylid eu diswyddo allan o law ar sail oedran. Mae hefyd yn dweud y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau da.* ***Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)***

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion s'yn gyfrifol am gydlynu a rheoli Cyngor Ieuenctid Ceredigion ers iddo gael ei sefydlu gyntaf yn Hydref 2015. Maent yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor) ac mae'r Cyngor yn cynnal digwyddiad ar ddiwedd eu blwyddyn 'yn y rôl'. Ar hyn o bryd, mae cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid yn cael eu cynnal ar-lein, ond fel rheol, byddent wedi'u lleoli yn y siambr ym Mhenmorfa.

| | |
|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:** Cydbwyso angen tymor byr â chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol<br>**Cydweithio:** Ystyried sut y gall llesiant pobl ifanc effeithio ar bob un o'r nodau llesiant<br>**Cynnwys:** Gweithio gydag eraill i greu cyfleoedd i bobl ifanc<br>**Atal:** Cynnwys pobl ifanc a cheisio eu barn<br>**Integreiddio:** Darparu ymyrraeth gynnar i leihau problemau rhag datblygu |

**ARGYMHELLION:**

Er mwyn i Aelodau Etholedig gytuno bod cofnodion Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Craffu Cymunedau Dysgu a Cabinet, er gwybodaeth, bob tymor.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Bodloni gofynion y ddeddfwriaeth fel y nodir yn Atodiad B Llywodraeth Cymru - Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lowri Evans |
| **Swydd:** | Rheolwraig Tim – Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 23 Tachwedd 2021 |
| **Acronymau:** | Dim |

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion 22.10.21

Cofnodion Cyngor Ieuenctid 22.10.21.do

**SPSF 3 - ATODIAD B**
**CANLLAWIAU STATUDOL YNGHYLCH CYFRANOGIAD PLANT A PHOBL IFANC**

**Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu cyhoeddi yn unol ag Adran 17(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac maent yn berthnasol I awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol, a phryd bynnag y byddant yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc.**

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Y sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol *wneud trefniadau y maent yn ystyried sy'n addas i hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, ac i gyhoeddi a diweddaru gwybodaeth am ei drefniadau.* Gallai'r dyletswyddau hyn gael eu cyflawni drwy'r cynllun llesiant lleol.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant hyd at 18 oed. Mae'n cydnabod nid yn unig eu hawliau dynol sylfaenol ond yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w hamddiffyn rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae gan CCUHP 54 o erthyglau. Mae erthyglau 1-41 yn nodi sut y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin. Mae'r 13 o erthyglau eraill yn nodi sut y dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i sicrhau y gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at eu hawliau.

Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad i'r Confensiwn yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifance (Cymru) 2011.
Mae Adran 1 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried sut mae'r hyn maent yn ei wneud yn

cysylltu â'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP a manteisiwyd ar bob cyfle i nodi sut i wireddu'r hawliau perthnasol cyn gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, mae hyn yn treiddio I lawr i'r lefel leol drwy ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan sy'n hawl sylfaenol ac yn hawl galluogi fel y nodir yn Erthygl 12 CCUHP:

> Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch beth maent yn meddwl a ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, ac i gael eu barn wedi ei hystyried.

Mae erthyglau'r CCUHP wedi'u crynhoi'n Saith Nod Craidd a ddylai fod yn sail I arferion gwaith unrhyw ddarpariaeth gan wasanaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol. Mae Nod Craidd 5 yn arbennig yn ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc gyda'r nod

> Bod pob plenty a person ifanc yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin a pharch, ac yn cael eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol wedi'u cynabod

Bwriad y canllaw hwn felly yw rhoi cyfle i bob plantyn a pherson ifanc gael gwrandawiad a chael cyfrannu at wneud penderfyniadau.

Gall llais a chyfranogiad y dinesydd fod yn erfyn pwysig i ddeall ble mae system yn methu a lle mae diffyg cyd-drefnu rhwng darparwyr gwasanaethau yn gwastraffu adnoddau heb wella canlyniadau, i ailgynllunio gwasanaethau o gwmpas anghenion pobl ac i bwyso a mesur effeithlonrwydd gwasanaeth. Dylai plant a phobl ifanc gael eu hystyried fel dinasyddion nawr, nid dinasyddion y dyfodol. Dylai Awdurdodau Lleol feddwl sut y gallant roi'r grym i blant a phobl ifanc gyfrannu at wneud penderfyniadau a sicrhau bod clust i glywed eu barn. Er y bod yn well gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc

gyfrannu mewn grŵp, dylid ystyried sut y gall unigolion fod yn rhan o brosesau cynllunio a phenderfynu.

**Gofynion**

Er mwyn bodloni gofynion y Ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

• hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn cyd-destun eang y CCUHP, fel rhan o'u polisïau, gwasanaethau a'r ymgysylltu ehangach â dinasyddion. Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol sicrhau bod cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl yn ymwybodol o'u hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn, gan gynnwys eu hawl i gymryd rhan ac i'w barn gael ei chlywed, a'u hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau;

• gwreiddio cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys Asesu Llesiant Lleol, y cynllun llesiant lleol ac is-gynlluniau perthnasol;

• mabwysiadu Safonau Cyfranogi Cenedlaethol. Mae cefnogaeth i’r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol yn atgyfnerthu’r ymrwymiad i hawliau plant yng Nghymru a cheir llawer o enghreifftiau o arferion da o gyrff sydd wedi mabwysiadu’r safonau fel cyfrwng i sicrhau bod unrhyw gyfranogiad yn ystyrlon ac effeithlon.

• cyhoeddi gwybodaeth am fanteision a threfniadau hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad yn yr awdurdod, a rhannu enghreifftiau o arferion da, er enghraifft, trwy wefannau a thaflenni newyddion yn ogystal ag ar y
Bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, ac yn cael eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol wedi'u cydnabod.
cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio gyda ‘Young Wales’. Gall y plant a’r bobl ifanc eu hunain gymryd rhan amlwg i godi ymwybyddiaeth am

bwysigrwydd cymryd rhan. Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o adnoddau a allai gefnogi hyn ac y gellid eu haddasu yn ôl anghenion lleol. Yn ogystal â defnyddio adnoddau a'r cyfryngau sy'n rhwydd eu cyrraedd gan blant a phobl ifanc, gellid cynnwys gwybodaeth yn adroddiad cynnydd blynyddol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;

• dylai gwybodaeth a deunyddiau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc fod yn glir ac yn hawdd i'w deall. Dylent ateb eu cwestiynau a'r anghenion a nodwyd ganddynt, yn ogystal â bod yn gywir, yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hygyrch o ran iaith a fformat.

• sicrhau bod ystod o gyfleoedd a'r gefnogaeth briodol yn cael eu darparu ar gyfer cyfranogiad effeithiol. Dylai'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fel unigolion gymryd rhan gael eu hintegreiddio i'r gwasanaethau o ddydd i ddydd yn ogystal â strwythurau cyfranogi penodol megis fforymau ar gyfer plant, fforymau ar gyfer pobl ifanc, neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, rhai sy'n agored i niwed neu rai sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol. Mae gan y fforymau a'r grwpiau hyn rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi plant a phobl ifanc i gael llais ac i ddefnyddio eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn;

• cefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid Sirol fel corff cynrychiadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac at gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc sy'n fwy ar yr ymylon. Er mwyn i Fforymau/ Cynghorau Ieuenctid Sirol weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn. Dylent gael eu hysbysu gan eu strwythurau democrataidd lleol a'u cysylltu â hwy. Bydd angen iddynt hefyd gysylltu'n effeithiol i mewn i strwythurau cyfranogiad cenedlaethol megis 'Young Wales', Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

• rhoi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg wrth hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad ac fel rhan o baratoi'r cynllun llesiant lleol, gan adlewyrchu ei statws swyddogol yng Nghymru a'r nod llesiant cenedlaethol sef 'y Gymraeg yn ffynnu'.

**Gweithio gyda phartneriaid**

Er bod y canllawiau statudol hyn, a gyhoeddwyd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn unig, byddem yn eu hannog I weithio'n agos gyda phob un o'u partneriaid perthnasol. Mae gweithio mewn ffordd amlasiantaethol yn arfer da ac mae Adran 25 Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithrediad gyda'r bwriad o wella llesiant plant yn yr ardal. Ymhellach, mae Adran 38 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi gofyniad ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd I ymgynghori wrth asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal.

Mae llawer o enghreifftiau o bartneriaid sy'n cyfrannu at gyfranogiad plant a phobl ifanc ac yn ei brif ffrydio i'w meysydd gwaith a'u trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion. Gwelir rhai o'r rhain ar www.youngwales.wales and www.pupilvoicewales.org.uk.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Mae cwmpas y ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ehangach na chael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol. Mae'n bwysig fod cyfranogiad yn dod yn rhan o bolisi ac arferion yr holl bartneriaid lleol. Dylai Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso.

Fodd bynnag, gallai'r cynllun llesiant esbonio sut y gellid sicrhau bod pob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau a'u "trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad" wneud cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc yn ganolog iddynt. Gallai adroddiad cynnydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnwys crynodeb i esbonio sut mae'r dyletswyddau statudol hyn wedi'u cyflawni a sut y gellid gwneud yn well. Gallai adroddiad cynnydd blynyddol y byrddau gwasanaethau cyhoeddus ystyried y nodweddion gwarchodedig, yn enwedig o ran oed, gan adrodd yn benodol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Hefyd, mae cynlluniau llesiant lleol yn rhoi tystiolaeth i Arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) wrth iddynt gynnal adolygiadau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol. Gallai Arolygiaethau a'r WAO hefyd adolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r gweithdrefnau cysylltiedig i ddangos pa mor effeithiol y mae plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u cynnwys.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwrandawiad, i gael llais ac i allu cael mynediad at gyfleoedd i chwarae rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau lle bynnag y bônt - yn yr ysgol, o gwmpas yn y gymuned neu fel defnyddwyr gwasanaethau.

Ein huchelgais yw i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru wireddu eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn. Efallai y bydd yna weithiau rwystrau i gyflawni hyn, ond drwy weithio mewn ffordd gydweithredol, mae gennym ni i gyd rôl o ran ystyried ffyrdd y gallai'r rhwystrau hyn gael eu dileu neu eu goresgyn. Mae Cymru wedi bod yn arwain y ffordd o ran cyfranogaeth plant a phobl ifanc, a rhaid cynnal y momentwm.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am arfer da mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc ar www.childrensrights.wales neu http://www.childrensrights.wales/images/PDF/Participation_En2.pdf

Mae gwybodaeth, adnoddau, deunyddiau ac arfer da sy'n cefnogi cyfranogiad yng Nghymru ar gael hefyd yn www.youngwales.wales.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod**
**Cyngor Ieuenctid Ceredigion**
**Ar-lein trwy Microsoft Teams**
**Dydd Gwener 22 Hydref 2021**

(13:15 – 15.00)

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Naimur Rahman | Ysgol Bro Pedr |
| Gwion Owen | Ysgol Bro Pedr |
| Rhys Corden | Ysgol Gyfun Aberaeron a Gwasanaethau Cymorth ac Atal |
| Jacob Willis | Ysgol Gyfun Aberaeron |
| Poppy Evans | Ysgol Gyfun Aberaeron ac MYP UKYP |
| Jessica Jones | Ysgol Gyfun Aberaeron |
| Elin Howells | Ysgol Gyfun Aberaeron |
| Molly Crombie | Ysgol Uwchradd Aberteifi |
| Evelyn Rees | Ysgoil Uwchradd Aberteifi |
| Megan Williams | Ysgol Henry Richard a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion |
| Jessica Jones | Ysgol Henry Richard |
| Hanna Morgans Bowen | Ysgol Bro Teifi |
| Gwenllian Morgan | Ysgol Bro Teifi |
| Cadan Pearce | Ysgol Bro Teifi |
| Alexandra Moore | Ysgol Penglais |
| Ella Bradick | Ysgol Penglais |
| Elen Llewelyn-Williams | Ysgol Gyfun Penweddig |
| Elain Morgan | Ysgol Gyfun Penweddig |
| Luned Jones | Ysgol Gyfun Penweddig |

**Yn bresennol hefyd:** Y Cynghorydd Catrin Miles (Aelod Cabinet; Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cymorth ac Ymyrraeth – Cyngor Sir Ceredigion), Gwion Bowen (Cadeirydd a Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Gwaith Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ymgysylltu), Lowri Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd – Cyngor Sir Ceredigion) Lowri Evans (Rheolwr Tîm, Gwaith Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ymgysylltu – Cyngor Sir Ceredigion), Carys Huntly (Cydlynydd Asesu Lles Rhanbarthol – Rhanbarthol / Cyngor Sir Ceredigion)

**Siaradwyr:** Samantha Boswell (Swyddog Ymgysylltu a Phrosesu y Gwasanaethau Etholiadol – Cyngor Sir Ceredigion), Emma Harries (Swyddog Cymorth Gwasanaeth, Gwasanaethau Etholiadol – Cyngor Sir Ceredigion)

**Ymddiheuriadau:** Gethin Jones (Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaeth Cymorth ac Atal – Cyngor Sir Ceredigion), Elen James (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cymorth Cynnar – Cyngor Sir Ceredigion)

| COFNODION | |
|---|---|
| **1** | **Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau (Cydweithwyr)** |
| | Agorodd Gwion Bowen y cyfarfod trwy groesawu'r Cyngor Ieuenctid newydd.<br><br>Aeth cydweithwyr Cyngor Sir Ceredigion ymlaen i gyflwyno'u hunain a'u rolau.<br><br>Nodwyd yr ymddiheuriadau gan Gethin Jones, Rheolwr Corfforaethol. |

## 2 Defnyddio Microsoft Teams

Esboniodd Gwion Bowen elfennau ymarferol Microsoft Teams.

- Problemau cysylltu
- Y botwm tawelu
- Cyfleuster sgwrsio
- Gohebiaeth i ddilyn mewn neges e-bost

Yn ogystal, cyflwynodd Gwion ychydig wybodaeth am gefndir y Cyngor Ieuenctid, ac oherwydd y pandemig, esboniodd na fu modd i ni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y Siambr.  Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i adolygu hyn i weld a oes modd i ni estyn gwahoddiad i'r Cyngor Ieuenctid gael y profiad o fod yn y Siambr ym Mhenmorfa cyn diwedd eu cyfnod yn y rôl.  Ar hyn o bryd, byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol.

## 3 Cyflwyniad i Aelodau'r Cyngor Ieuenctid

Aeth aelodau'r Cyngor Ieuenctid ymlaen i gyflwyno'u hunain, y sawl y maent yn eu cynrychioli (ysgol / sefydliadau ac ati), ynghyd â hobi y maent yn ei fwynhau.

## 4 Beth yw ein Cyngor Ieuenctid a strwythur Cyngor Ieuenctid 2021/22?

Rhoddodd Gwion Bowen gyflwyniad i'r Cyngor Ieuenctid.

Cyfarfod 1af Cyngor Ieuenctid 2021.22.ppt

## 5 Ymgynghoriad:  Trafodaeth am yr Asesiad Llesiant Lleol

Cyflwynwyd fideo gan Gwion Bowen a chyfres o sleidiau a oedd yn dangos diben yr Asesiad Llesiant Lleol a gynhelir ar hyn o bryd.

Bu aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn cymryd rhan mewn cwis a oedd wedi eu cynorthwyo i rannu ystyriaethau a phersbectifau dan y penawdau canlynol yn bennaf;

- Cydlyniant Cymunedol
- Yr Amgylchedd
- Trafnidiaeth
- Tai
- Iechyd Corfforol a Meddyliol

| | |
|---|---|
| | • Iaith a Diwylliant<br><br>Local Assessment of Wellbeing - Cyngor Ie<br><br>**Dolen i Stori Megan:**<br>https://www.youtube.com/watch?v=P0M-CnL9FBc<br><br>Bu aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn rhannu ystyriaethau a safbwyntiau am yr hyn sy'n bwysig iddynt nhw a'u cymunedau.<br><br>Cyfarfod Rhagarweiniol Cyngo |
| **6** | **Cyflwyniad: Pleidleisio yn 16 oed** |
| | Rhoddodd Emma Harries a Samantha Boswell gyflwyniad am 'Bleidleisio yn 16 oed' i'r Cyngor Ieuenctid.<br><br>Pleidleisio yn 16 ac 17 - Voting at 16 and<br><br>Gofynnodd Gwion a fyddai modd i aelodau'r Cyngor Ieuenctid rannu'r wybodaeth hon gyda'u cymheiriaid yn eu hysgolion. |
| **7** | **Diweddariad am Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig (UKYP)** |
| | Cyflwynodd Poppy Evans ei hun a'i rôl fel Aelod o Senedd Ieuenctid y DU a etholwyd yn ddiweddar i gynrychioli Ceredigion. Soniodd Poppy am ei gwaith hyd yn hyn, gan gyfeirio at ddigwyddiad ar-lein 'Gofalwch am ein Dyfodol' yr oedd hi wedi ei gyflwyno ar y cyd â CAVO a'r Gwasanaethau Ieuenctid. Bu Poppy yn trafod ei rôl, yr hyn y bydd yn ei olygu yn lleol ac yn genedlaethol gyda Chyngor Ieuenctid Prydain a Phlant yng Nghymru. |
| **8** | **Diweddariad am Senedd Ieuenctid Cymru** |
| | Rhoddodd Gwion Bowen ddiweddariad i'r Cyngor Ieuenctid am Senedd Ieuenctid Cymru, sy'n wahanol i Senedd Ieuenctid y DU, ond mae'r ddau yn gweithio law yn llaw â'i gilydd. Mae'r broses gofrestru wedi agor er mwyn i bobl ifanc bleidleisio ar gyfer SIC nesaf, a chynhelir yr etholiadau ym mis Tachwedd 2021.<br><br>WYP Update.pptx |
| **9** | **Cyfathrebu: Adfywio Canol Trefi Cymru – Ymateb Gwirfoddol Llywodraeth Cymru** |
| | |

| | |
|---|---|
| | Soniodd Gwion Bowen am yr ymgynghoriad uchod, a ddosbarthir i'r Cyngor Ieuenctid mewn neges e-bost cyn bo hir. Mae hon yn dasg wirfoddol i'r Cyngor Ieuenctid, ac os ydynt yn dymuno ymateb, caiff yr holl fanylion eu cynnwys yn yr ohebiaeth. |
| **10** | **Rhannu Gwybodaeth a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
| | Rhannodd Gwion wybodaeth am y cyfarfod nesaf a gynhelir ar 04/02/2022.<br><br>Yn ystod y cyfarfod nesaf, byddwn yn ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Ieuenctid Ceredigion. Esboniodd Gwion y bydd y broses hon yn cynnwys y rhai y mae ganddynt ddiddordeb mewn cynrychioli'r Cyngor Ieuenctid fel cadeirydd, a byddant yn cael y cyfle i ddisgrifio i'r grŵp pam eu bod nhw yn ymgeisydd addas i hyrwyddo llais y Cyngor Ieuenctid. Bydd gan bob ymgeisydd 30 eiliad i funud i gyflawni'r dasg hon, yna cynhelir pleidlais.<br><br>Yn ogystal, gofynnodd Gwion i'r Cyngor Ieuenctid ddechrau meddwl am 'faterion y dydd' ar gyfer y cyfarfod nesaf. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cytuno ar 'Faterion y Dydd', a'r rhain fydd yn dylanwadu ar ffocws y Cyngor Ieuenctid ar gyfer y flwyddyn. Fel arfer, mae materion y dydd yn cynnwys pethau fel; Tai, yr Iaith Gymraeg, Addysg, Trafnidiaeth a'r holl bethau y mae pobl ifanc o'r farn eu bod yn bwysig iddyn nhw neu lle y maent yn gweld bod angen newid.<br><br>Dyddiadau cyfarfodydd;<br><br>Cyfarfod 1; 22/10/21<br>Cyfarfod 2; 04/02/22<br>Cyfarfod 3; 11/03/22<br>Diwedd y cyfnod yn y rôl, Digwyddiad Pawb a’i Farn; 8/07/22 |

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

**DYDDIAD:** 15 Rhagfyr 2021

**LLEOLIAD:** Cyfarfod rhithiol

**TEITL**: Adborth ar ffrwd gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

**PWRPAS YR ADRODDIAD**:Darparu adborth ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr

Sefydlodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu bedair ffrwd waith i godi ymwybyddiaeth, at ddibenion hyfforddiant, ac i nodi agweddau sydd angen craffu pellach, yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2012, fel rhan o'r broses o gynllunio rhaglen waith y dyfodol. Yn ystod 2014, adolygwyd a diweddarwyd y ffrydiau gwaith. Roedd y ffrydiau gwaith yn cynnwys pedwar aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, a byddai'r Cadeirydd yn mynychu ac yn cyfrannu at bob un o'r pedair. Cytunwyd yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2017 y byddai eitemau ffrydiau gwaith Moderneiddio'r Seilwaith yn cael eu hystyried gan y prif bwyllgor, a byddai Aelodau'r ffrwd waith honno'n cael eu rhannu rhwng y ffrydiau gwaith eraill.

Mae Ffigur 1 yn amlinellu'r strwythur ffrydiau gwaith presennol:

tre




| | | |
|---|---|---|
| Swyddog Arweiniol/Lead Officer: | Swyddog Arweiniol/Lead Officer: | Swyddog Arweiniol/Lead Officer: |
| **Mary Davies** | **Gillian Evans** | **Elen James** |

**Ffrwd Waith Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Cynhwysiant a Llesiant**

**3 Rhagfyr 2021**

Derbyniodd y grŵp ddiweddariad ar y broses o drawsnewid i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Gweithredir y ddwy system – yr hen yn ogystal â'r newydd – am y tair blynedd nesaf. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn paratoi am y trawsnewid oddi ar 2017. Cafwyd rhaglen baratoi a hyfforddi ddwys. Cyhoeddwyd y

fersiwn derfynol o'r cod ADY yn ystod gwanwyn 2021 ac oddi ar fis Medi 2021 mae'r rhaglen trawsnewid ADY wedi bod yn fyw, ac yn cael ei chyflwyno'n raddol i'r dysgwyr ADY. Cydnabu'r grŵp fod cyfrifoldeb ar bawb, yr ysgolion (y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni) a'r Cyngor fel corff. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru cyhoeddi fanylion canllawiau gweithredol diwedd Tachwedd 2021.

Cafodd y grŵp wybod am y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod Lleol yn ei baratoadau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ADY, gan gynnwys ymgorffori arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, datblygu adnoddau, codi ymwybyddiaeth rhieni, hyfforddiant, datblygu fframweithiau meddalwedd a chynyddu capasiti. Mae cyflwyniad PwerBwynt yn y broses o gael ei baratoi, er mwyn ei rannu â llywodraethwyr ysgolion yn y flwyddyn newydd. Mae'r Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol "barhau i adolygu'r ddarpariaeth ADY". Trafododd y grŵp y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu'r angen hwn. Trafodwyd y canllawiau a ddarparwyd gan yr Awdurdodau Lleol ar gynlluniau datblygu unigol, gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau addysg bellach a rhieni. Roedd y cyflwyniad hefyd yn cwmpasu sicrwydd ansawdd a sut y byddai arfer dda yn cael ei rhannu. Roedd rhan olaf y cyflwyniad yn cwmpasu'r dulliau o weithio gyda darparwyr ôl-16.

**Cofnodion Cyfarfod**
**Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU**
a gynhaliwyd yn rhithiol drwy fideogynadledda ddydd Llun, 20 Medi 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Rhodri Davies, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Keith Evans, Hag Harris, Alun Lloyd Jones, Lynford Thomas ac Ivor Williams

**Hefyd yn bresennol:** y Cynghorydd Catrin Miles a Catherine Hughes (Aelod Cabinet)

**Swyddogion oedd yn bresennol**:- Mrs Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion, Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Porth Cymorth Cynnar, Mr Gethin Jones, Rheolwr Corfforaethol – Cymorth ac Ymyrraeth, Mr Mark Gleeson, Rheolwr Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes , Mr Gareth Lewis, Pennaeth Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion, Ms Gillian Evans, Rheolwr Corfforaethol – ADY Cynhwysiant a Lles, Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion, Mrs Lisa Evans – Swyddog Craffu a Safonau a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:00am – 12:45pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Mark Strong am na allai fynychu'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge am ei anallu i fynychu'r cyfarfod oherwydd ei fod ar ddyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

**2 Materion Personol**

Estynnwyd cydymdeimlad i Ms Nia James, Rheolwr Corfforaethol – Adnoddau Dysgu ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.

Croesawyd y Cynghorydd Lloyd Edwards yn ôl i'r pwyllgor yn dilyn cyfnod o salwch.

**3 Datgelu buddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu.

**4 Diweddariad ar lafar ynglŷn â chefnogaeth y Gwasanaeth Ysgolion dros gyfnod COVID-19**

Rhoddodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion yr wybodaeth ddiweddaraf i ysgolion ynghylch y sefyllfa mewn ysgolion o ran Covid-19. Dywedwyd bod y ddogfen newydd, sef Fframwaith penderfyniadau rheoli heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion a cholegau o Awst 2021 ymlaen yn

cynnwys tabl graddau risg cenedlaethol - risg isel, cymedrol, uchel ac uchel iawn.

Roedd ysgolion Ceredigion wedi'u hasesu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda a phennwyd bod yr ysgolion ar hyn o bryd ar lefel risg gymedrol, gyda 22 achos positif wedi'u cofnodi yn ysgolion Ceredigion y diwrnod blaenorol. .

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion a staff yr ysgolion am eu gwaith yn ystod yr amser anodd hwn.

5 **Diweddariad ar dri Gwasanaeth o fewn Porth Cymorth Cynnar (Uned Cyfeirio Disgyblion, Gwasanaethau Cymorth ac Atal a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau)**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a'i hysbysu am y modd y mae'r tri gwasanaeth sef yr Uned Cyfeirio Disgyblion, y Gwasanaethau Cymorth ac Atal a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn datblygu o fewn Porth Cymorth Cynnar ac fel rhan o'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant.

Rhoddwyd cyflwyniad manwl ar y tri gwasanaeth gan y Rheolwyr Corfforaethol/Prifathro sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn a chafwyd gwybodaeth am y cefndir; y strwythur staffio a sefyllfa pob gwasanaeth ar hyn o bryd.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth a diolch i'r swyddogion am eu holl waith yn y gwasanaethau hyn.
Nododd swyddogion hefyd y gallai fod yn bosibl i aelodau ymweld â'r cyfleusterau cyn gynted ag y byddai nifer yr achosion o Covid-19 wedi gostwng.

6 **Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dywedwyd bod y cod newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru wedi ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021, gyda'r bwriad o roi'r system newydd ar waith o fis Medi 2021. Fodd bynnag, roedd y rhaglen weithredu wedi'i hadolygu oherwydd effaith y pandemig.

Rhoddwyd gwybodaeth gefndir fanwl i'r strategaeth a chyflwynwyd nod yr ymagwedd newydd fel y mae wedi ei nodi yn y Cod.

Adroddwyd bod y cynllun gweithredu wedi ei adolygu ymhellach gan y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2021, oherwydd effaith sylweddol y pandemig.

O'r 1af o Fedi 2021, byddai'r system ADY yn dechrau ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac is yn unig:

- sydd newydd eu nodi fel rhai sydd ag angen dysgu ychwanegol (ADY) yn dilyn prosesau Cod ADY, waeth beth fo'u lleoliad - gan gynnwys y rhai sydd o

bosibl yn cael darpariaeth ysgol heblaw yn yr ysgol (EOTAS), y sawl sydd mewn ysgol annibynnol neu sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref;
- yn cael eu cadw;

O’r 1af o Ionawr 2022, byddai’r system ADY yn dechrau ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac yn is sydd:
- yn mynychu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion) ac sydd ym Mlynyddoedd Meithrin 1 a 2 a Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10) sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar / gweithredu blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol GY / gweithredu gan yr ysgol â mwy GYM;
- Ni fyddai plant sydd â darpariaeth addysgol arbennig ar hyn o bryd drwy ddatganiad, yn aros am asesiad AAA neu wrthi'n cael asesiad AAA; na’r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn gyntaf o weithredu.
- Byddai’r broses o symud plant i'r system newydd yn cael ei gwasgaru dros y flwyddyn.
- Ni fyddai rhieni'n gallu gofyn am symud i'r system newydd tan y 1af o Ionawr 2022

Nodwyd bod yr Awdurdodau Lleol yn dal i aros am y canllawiau gweithredu tair blynedd terfynol. Disgwylir i’r canllawiau gael eu cyhoeddi yn gynnar yn Nhymor yr Hydref. Roedd y ffaith bod oedi o ran y canllaw hwn yn effeithio ar sicrwydd y cyngor yr oeddem yn gallu ei gynnig i ysgolion, yn ogystal ag effeithio ar y gwaith paratoi yr oeddem yn gallu ei wneud gyda rhieni ac asiantaethau cymorth.

O dan y system ADY newydd, roedd dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau a wnaed gan ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Byddai’r canllawiau hyn yn amlinellu egwyddorion a disgwyliadau Awdurdod Ceredigion ar gyfer addysgu plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd hefyd yn rhoi eglurder ar yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion prif ffrwd Ceredigion, o ran diwallu anghenion dysgwyr ag ADY, a byddai’r awdurdod yn ei adolygu. Byddai’r ddogfen hon yn rhan annatod o fframwaith yr awdurdod ar gyfer diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed.

Roedd Ceredigion eisoes mewn sefyllfa dda i weithredu llawer o egwyddorion y diwygiadau ADY newydd a darparwyd rhestr o’r rhain. Darparwyd rhestr hefyd o’r risgiau a nodwyd yn sgil y newidiadau hyn.

Byddai’r system ADY newydd yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA, yn ystod y cyfnod gweithredu tair blynedd. Byddai adolygiad o'r cynllun gweithredu a'r ddogfen egwyddorion a disgwyliadau yn cael ei darparu, unwaith y byddai’r cynllun gweithredu terfynol a'r wybodaeth wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

Byddai dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau Ceredigion yn cael ei chyflwyno i’r Cabinet maes o law. Cododd Aelodau bryderon hefyd ynglŷn â’r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai rhoi’r newidiadau hyn ar waith yn gost

niwtral, fodd bynnag nid dyna oedd yr achos oherwydd yr adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol a diolch i swyddogion am eu gwaith yn rhoi'r cod hwn ar waith.

7 **Y broses o ddyfarnu canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2021**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r broses o ddyfarnu canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2021. Nodwyd y cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 na fyddai'r arholiadau allanol traddodiadol TGAU a Safon Uwch yn digwydd yn ystod Haf 2021. Yn hytrach, sefydlwyd panel annibynnol yn cynnwys Penaethiaid Uwchradd a phartneriaid eraill er mwyn dyfeisio dull cenedlaethol cyson ar gyfer dyfarnu graddau arholiad ar gyfer haf 2021.

Nid yw'r drefn ar gyfer 2021 wedi efelychu'r drefn ar gyfer haf 2020. Yn hytrach, cafodd disgyblion eu hasesu'n rheolaidd ar gynnwys manylebau'r arholiadau o fis Mawrth hyd at ddiwedd mis Mai. Bu'n rhaid i bob ysgol uwchradd/ysgol gydol oed wneud y canlynol:

•cyflwyno rhaglen asesu drylwyr i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru ei chymeradwyo;
•addasu a chreu polisïau asesu ac apelio o'r newydd;
•darparu rhaglen hyfforddi i staff ar themâu megis tuedd a diogelu data;
•cyflwyno rhaglenni asesu ar gyfer pynciau unigol;
•paratoi amserlenni, asesiadau a chynlluniau marcio pwrpasol;
•marcio a chymedroli'r asesiadau;
•cadw tystiolaeth fanwl o gyflawniadau disgyblion ym mhob asesiad ac ym mhob pwnc;
•sicrhau trefniadau atebolrwydd grymus;
•galluogi'r broses apelio ac arwain y broses honno;
•cyflwyno dogfen rhesymeg i Gyd-Bwyllgor Cymru yn egluro patrwm y canlyniadau o'i gymharu â phatrymau'r gorffennol

Gosododd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru drothwyon lle y byddent yn dymuno cynnal sgyrsiau proffesiynol ag ysgolion pe bai'r canlyniadau interim yn croesi'r trothwyon hynny. Ni chafwyd sgyrsiau proffesiynol rhwng Cyd-bwyllgor Addysg Cymru ag unrhyw un o ysgolion uwchradd/gydol oed Ceredigion.

Bu'r gwaith uchod yn sylweddol ac yn ddwys o fewn cyfnod byr o amser. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Benaethiaid, timau arwain, athrawon a staff ysgolion am eu gwaith proffesiynol gwych yn cefnogi ein disgyblion yn ystod y cyfnod hwn.
Er nad yw'n bosibl cymharu canlyniadau eleni â chanlyniadau'r llynedd, mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau'r ddwy flynedd, er gwybodaeth yn unig.

| Dangosydd | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Sgôr pwyntiau Capio 9 | 392 | 386 |
| 5A*-C (Iaith a Mathemateg) | 68.8 | 67.7 |
| 5A*-G | 94.8 | 95.9 |
| 5A*-A | 29.3 | 33.8 |
| Mathemateg gorau | 72.9 | 72.8 |
| Mathemateg | 71.4 | 70.8 |
| Rhifedd | 68.0 | 68.0 |
| Cymraeg | 82.1 | 81.6 |
| Saesneg | 73.8 | 75.1 |
| Gwyddoniaeth | 76.8 | 74.8 |

**Canlyniadau Safon Uwch**

| Dangosydd | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| 3A*-C | 75.6 | 79.1 |
| 3A*-A | 27.2 | 35.4 |
| Cyfanswm y Pwyntiau | 855 | ~ |

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa gyfredol.

**8 Llythyr Estyn - Tymor yr Haf 2021**

Adroddwyd i Estyn gynnal ymweliad rhithiol â swyddogion y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant, i arfarnu eu gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod cyfnod - pandemig Covid-19. Yn dilyn yr ymweliad rhithiol hwnnw, anfonodd Estyn lythyr yn amlinellu eu barn ac fe gyflwynwyd y llythyr hwnnw i'r Pwyllgor

Llywodraethu ac Archwilio ac yna i'r Cabinet. Lluniodd Estyn adroddiad cenedlaethol cyfansawdd ag iddo argymhellion penodol.

Ym mis Mai 2021 cynhaliodd Estyn ail ymweliad gyda phob Awdurdod Lleol, gan ganolbwyntio ar yr ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol. Anfonodd Estyn lythyr at y Prif Weithredwr ar 1 Gorffennaf 2021, yn amlinellu gwaith yr Awdurdod yn y meysydd hynny.

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth. Dymunai'r Aelodau longyfarch y gwasanaeth ar yr adroddiad ardderchog. .

**8 Diweddariad ar gefnogaeth yr Awdurdod i Ysgolion wrth iddynt baratoi at fabwysiadu Cwricwlwm i Gymru**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad a oedd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth yr Awdurdod i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer mabwysiadu 'Cwricwlwm i Gymru'.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol a dywedwyd y byddai adroddiad pellach yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn y dyfodol.

**9 Cadarnhau cofnodion y Pwyllgor blaenorol ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny**

CYTUNWYD bod cofnodion y pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Mai 2021 yn rhai cywir.

**Materion yn codi**

Dim.

10 **Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu**

**CYTUNWYD i nodi'r Rhaglen Flaen a gyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:**

- Ystyried ailgyflwyno'r ffrydiau gwaith yn rhithiol. Dywedodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion y gallai fod yn bosibl i Bennaeth fynychu.
- Tynnu'r eitem ar y broses o ddyfarnu canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2021 oddi ar agenda'r cyfarfod nesaf, gan na fyddai unrhyw wybodaeth bellach i'w hychwanegu at yr adroddiad a gyflwynwyd ynghynt.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **15 Rhagfyr 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Cyfarfod rhithiol** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2021/22** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 8/12/2021 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

<u>Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2021/22</u>

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau sy'n Dysgu*** | | | |
| 27 Mai | CYSGA<br><br>Defnyddio darpariaeth rithiol i'r dyfodol<br><br>Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALI a'r Ysgolion 2021-24 | Silyn Roberts<br><br>Meinir Ebbsworth/Non Davies | |
| 20 Medi | Cwricwlwm i Gymru<br><br>Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol<br><br>Diweddariad ar y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oed a Sgiliau a'r Gwasanaeth Cymorth ag Atal.<br><br>Llythyr Estyn, tymor yr Haf 2021<br><br>Proses dyfarnu canlyniadau TGAU a Lefel A 2021 | Gillian Evans<br><br>Elen James<br><br>Meinir Ebbsworth<br><br>Meinir Ebbsworth | |
| 15 Rhagfyr | Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg<br><br>Diweddariad ar e-sgol<br><br>Cofnodion Cyngor Ieuenctid | Meinir Ebbsworth<br><br>Meinir Ebbsworth<br><br>Lowri Evans | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **<u>2022</u>**<br>17 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb<br>1:30pm | Cyllideb | | |
| 2 Mawrth | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant | Carys Davies | |
| Cyfarfodydd y Dyfodol | Asesiad Digonolrwydd Chwarae | Cathryn Morgan | |
| Ffrydiau Gwaith | Safonau ac Ysgolion<br><br>ADY, Cynhwysiant a Lles<br><br>Porth Cymorth Cynnar | Meinir Ebbsworth<br><br>Gillian Evans<br><br>Elen James | |